



Ffilm am yr Argyfwng Hinsawdd

Mae'r nodyn gwybodaeth hwn yn cyd-fynd â'r ffilm am yr argyfwng hinsawdd a gweithgareddau dysgu cysylltiedig. Mae'n tynnu sylw at rai o'r ffyrdd y mae CNC yn helpu i reoli ein hamgylchedd naturiol yn gynaliadwy.

Amser	Prif Thema	Gwybodaeth Sylfaenol
0.07	Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith.	Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.
0.22	Cynhesu byd-eang - naturiol neu o waith dyn?	
0.38	Naturiol - Mae cylchdro'r Ddaear yn amrywio.	
0.40	Naturiol - Mae allbwn yr haul yn newidiol.	
0.43	Naturiol - Mae trawiadau meteorau wedi newid yr hinsawdd, gan arwain at ddifodiant.	
1.05	O waith dyn.	
1.12	Mae'r hinsawdd yn newid. Mae'r tywydd yn dod yn fwy anrhagweladwy.	
1.21	Mae'r hinsawdd yn newid. Gormod o law i rai. Dim digon o law i bobl eraill.	
1.38	Mae'r hinsawdd yn newid. Mae lefelau'r môr yn codi.	
1.49	Mae'r hinsawdd yn newid. Mae rhywogaethau lleol a byd-eang yn symud wrth i'r hinsawdd gynhesu.	



Amser	Prif Thema	Gwybodaeth Sylfaenol
1.55	Ac mae rhywogaethau goresgynnol yn lledaenu.	<p>Mae'n drosedd caniatáu i blanhigion goresgynnol penodol dyfu'n wyllt, megis clymog Japan.</p> <p>Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn rhestru'r planhigion perthnasol yn Atodlen 9, Rhan II.</p> <p>Dyma'r rhywogaethau a welir ar y ffilm:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwyfyn ymdeithiwr y derw – cyflwynwyd ar ddamwain ym Mhrydain yn 2005. Maent yn byw ac yn bwydo ar goed derw yn unig. Byddant yn bwydo ar goed eraill os ydynt yn brin o ddail derw i'w bwyta ac maent wedi cael eu gweld ar goed oestrwydd, cyll, ffawydd, castanwydd pêr a bedw. Jac y neidiwr – cyflwynwyd i'r DU yn 1839 fel planhigyn i'r ardd. Mae'n cynhyrchu miloedd o hadau'r flwyddyn, o godau sy'n agor yn ffyrnig, gan saethu hadau sawl metr i ffwrdd. Oherwydd bod yr hadau'n arnofio, gall y planhigyn lledaenu'n hynod gyflym, o lannau afonydd ar hyd ffosydd, gwrychoedd ac ymylon ffyrdd, hyd yn oed yn ymledu i goetiroedd. Mae'r rhywogaeth oresgynnol hon yn tyfu'n dal iawn ac yn dominyddu ardaloedd, gan dagu rhywogaethau brodorol ac arwain at lai o fioamrywiaeth. Gall pob planhigyn gynhyrchu hyd at 800 o hadau. Caiff y rhain eu gwasgaru'n eang wrth i'r codau hadau aeddfed saethu eu hadau hyd at 7 metr (22 droedfedd) i ffwrdd.
2.02	Y gylchred naturiol. Ffotosynthesis.	
2.05	Y gylchred naturiol. Mae coed a phlanhigion yn storio carbon ac yn rhyddhau ocsigen drwy ffotosynthesis.	<p>Mae coedwigoedd, coed a choetiroedd yn ein helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy leihau swm y nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer. Maent yn gwneud hyn drwy amsugno carbon deuocsid (CO₂), defnyddio'r carbon (C) i gynhyrchu siwgr ar gyfer tyfiant coed, a rhyddhau ocsigen (O₂) yn ôl i'r aer.</p> <p>Wrth i goed dyfu, maent yn storio carbon yn eu dail, eu brigau a'r boncyff, ac yn y pridd o'u hamgylch.</p>



Amser	Prif Thema	Gwybodaeth Sylfaenol
2.17	Cylchred naturiol. Mae coetiroedd brodorol yn diogelu bioamrywiaeth.	<p>Mae yna sawl math unigryw o goetir ac mae gennym gyfrifoldeb i'w rheoli'n gynaliadwy ynghyd â'r bywyd gwyllt sy'n byw ynddynt.</p> <p>Mae ein coetiroedd hynafol yn bwysig nid yn unig i'r bywyd gwyllt, ond i bobl a'r economi. Mae'n bwysig ein bod yn rheoli coetiroedd yn ofalus i sicrhau y gall y lleoedd prydferth hyn, llawn rhywogaethau, gael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</p> <p>Rhywogaethau planhigion a warchodir yn y DU</p> <p>Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn rhoi peth diogelwch cyfreithiol i'r holl blanhigion gwyllt. Mae gan rywogaethau planhigion a ffyngau wedi'u rhestru ar Atodlen 8 fwy o ddiogelwch. Mae troseddau'n cynnwys eu gwerthu a'u casglu, eu tynnu neu eu dinistrio'n fwriadol.</p> <p>Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn anghyfreithlon i dynnu unrhyw blanhigyn gwyllt o'r gwraidd, oni bai bod gennych ganiatâd gan berchennog y tir.</p> <p>Yn ogystal, mae mwy na 100 o blanhigion sy'n blodeuo a thros 75 o blanhigion is wedi'u rhestru ar Atodlen 8. Mae'r rhywogaethau hyn naill ai'n brin neu'n agored i gael eu hecsbloetio.</p> <p>I'r planhigion hyn a warchodir yn arbennig, mae'n drosedd gwneud y canlynol:</p> <p>Eu casglu, eu dadwreiddio neu eu dinistrio'n fwriadol; Eu gwerthu, eu cynnig neu eu harddangos i'w gwerthu.</p>
2.23	Effaith dyn. Mae coedwigoedd yn diflannu.	
2.29	Effaith dyn. Mae'r ucheldir wedi cael ei newid.	<p>O'r glaswelltiroedd uchel, gorgorsydd a rhostir, hyd at frigau creigiog y mynyddoedd, mae mynyddoedd ac ucheldir Cymru'n llawn bywyd.</p> <p>Mae sawl rhywogaeth, fel y barcud coch a phlanhigion Alpaidd prin, yn dibynnu ar y cynefinoedd y maent yn byw ynddynt, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu rheoli'n ofalus i'w cadw mewn cyflwr da.</p> <p>Mae'r ucheldir yn hanfodol i bobl hefyd - mae'n cyflenwi ac yn puro dŵr yfed ac mae ymwelwyr yn dod yn eu miloedd i gerdded ar hyd y llwybrau cerdded neu i fwynhau'r golygfeydd.</p>



Amser	Prif Thema	Gwybodaeth Sylfaenol
2.31	Effaith dyn. Coed brodorol yn cael eu disodli â defaid, coed anffrodorol a phlanhigfeydd conwydd.	<p>Mae coetiroedd a choed dan bwysau cynyddol o ganlyniad i'n hinsawdd sy'n newid. Mae'r bygythiadau hyn yn cynnwys risgiau uwch o newidiadau mewn argaeledd dŵr (gormod neu ddim digon), difrod gan wynt, ac amodau sy'n ffafrio plâu a phathogenau coetir, gan gynyddu amllder a difrifoldeb clefydau.</p> <p>Mae angen i ni sicrhau y gall ein coetiroedd cyfredol, yn ogystal â'r rheiny sy'n cael eu plannu yn y dyfodol, barhau i chwarae rhan mewn lleihau allyriadau carbon net.</p>
2.34	Effaith dyn. Amaethyddiaeth.	<p>Mae CNC yn gweithio gyda sefydliadau a grwpiau ffermio i gynghori a chefnogi datblygiad diwydiant amaethyddol cynaliadwy i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diogelu, gwella ac adfer cynefinoedd bywyd gwyllt, rhywogaethau, tirweddau a nodweddion diwylliannol • darparu swyddi o safon ac enillion hyfyw i'r rheiny sy'n ffermio ac sy'n rheoli'r tir • cynnal a chefnogi gwead cymdeithasol cymunedau gwledig • helpu wrth fynd i'r afael â'r heriau a berir gan y newid yn yr hinsawdd • ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd cefn gwlad a'i fwynhau a'i ddeall yn well
2.37	Effaith dyn. Yn aml yn ungnwd bellach, yn lleihau bioamrywiaeth ac yn difrodi'r tir.	
2.42	Effaith dyn. Mae angen mwy o wrtaith wrth i ansawdd y pridd gael ei erydu.	<p>Rheoli pridd a thir yn well – byddai gwella'r ffordd rydym yn rheoli pridd yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diogelu cynhyrchiant bwyd yn y dyfodol • cynnal cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt • lleihau costau trin dŵr • lleihau swm y gwrrtaith a ddefnyddir
2.44	Effaith dyn. Mae echdynnu mawr yn rhyddhau'r carbon y mae'n ei storio.	<p>Mawndiroedd yw un o asedau naturiol hanfodol Cymru, gyda hanes amgylcheddol hynod ddiddorol a rôl bwysig wrth sicrhau gwydnwch ein hamgylchedd yn y dyfodol.</p> <p>Mae symiau mawr o garbon, wedi'u cloi o'r atmosffer ym meinweoedd planhigion drwy ffotosynthesis, wedi cael eu cloi mewn priddoedd mawr, gan gynrychioli storfa garbon fyd-eang werthfawr. Mae llawer o ardaloedd mawndir yng Nghymru wedi bod yn cronni ers dros 8,000 o flynyddoedd.</p>



Amser	Prif Thema	Gwybodaeth Sylfaenol
2.52	Effaith dyn. Tanwyddau ffosil = nwyon tŷ gwydr.	<p>Bydd creu coetir newydd a dod â rhagor o goetiroedd i reolaeth weithredol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i liniaru'r newid hinsawdd.</p> <p>Os caiff pren ei gynaeafu a'i ddefnyddio ar gyfer adeiladu neu weithgynhyrchu, caiff y rhan fwyaf o'r carbon yng ngweddillion y pren ei gloi am oes y cynnyrch.</p> <p>Gall carbon gael ei gloi am gyhyd â sawl cant o flynyddoedd pan gaiff ei ddefnyddio mewn cynhyrchion fel trawstiau adeiladau neu ddodrefn.</p> <p>Mae technegau rheoli coetir penodol yn fwy tebygol o gyflawni gostyngiadau tymor hir mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.</p> <p>Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tyfu pren cadarn ar gyfer adeiladu a gweithgynhyrchu • Defnyddio pren diamedr llai ar gyfer tanwydd pren • Lleihau aflonyddwch pridd
2.58	Effaith dyn. Mae'r galw am fwyd ac ynni yn parhau i dyfu.	
3.03	Mesurau lliniaru posib.	
3.06	Mesurau lliniaru posib. Rhagor o fannau ar gyfer bywyd gwyllt a pheillwyr.	<p>Creaduriaid yw peillwyr sy'n trosglwyddo paill o un blodyn i'r llall i ffrwythloni planhigion fel y gallant greu ffrwythau a/neu hadau. Hebbydym nhw, ni all planhigion atgynhyrchu.</p> <p>Mae llawer o bryfed yn peillio planhigion, gan gynnwys gwenyn, cacwn, clêr, chwilog, gwyfynod a glöynnod byw.</p> <p>Mae pob un trydydd cegaid o fwyd rydym yn ei fwyta wedi cael ei greu gan beillio. Mae angen peillwyr arnom i dyfu'r bwyd rydym yn dwlu arno. Mae'r rhestr yn faith ac yn cynnwys afalau, gellyg, bresych, mangos, cnau Brasil, cnau cashiw, mefus a siocled!</p> <p>Mae peillwyr yn dda i'r economi. Maent yn cynnig gwasanaeth peillio am ddim - byddai gorfod peillio cnydau â llaw'n costio biliynau a byddai'n gwneud ein biliau bwyd yn llawer drytach.</p> <p>Mae ein peillwyr yn diflannu.</p> <p>Mae yna sawl rheswm dros y dirywiad mewn peillwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y newid yn yr hinsawdd a natur anrhagweladwy neu eithafol y tywydd. • Plaladdwyr sy'n lladd 'plâu' ond sydd hefyd yn niweidio peillwyr.



Amser	Prif Thema	Gwybodaeth Sylfaenol
3.06 (Parhad)	Mesurau lliniaru posib. Rhagor o fannau ar gyfer bywyd gwyllt a pheillwyr.	<ul style="list-style-type: none"> Arferion amaethyddol modern sy'n dileu dolydd gwair a chynefinoedd sy'n gyfoethog mewn blodau am ddull mwy dwys o ffermio. Newidiadau mewn cynefinoedd peillwyr. Gall darnio a phori ar adegau penodol o'r flwyddyn amddifadu peillwyr o adnodd bwyd pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Lleihad mewn cynefinoedd megis dolydd, gwrychoedd, ymylon coetir, glaswelltiroedd, gerddi a pherllannau. Mae angen mannau gwyllt addas ar beillwyr ar gyfer nythod ac er mwyn gaeafgysgu. <p>Mae yna lawer o bethau y gallwn eu gwneud i'w gwneud yn haws i beillwyr oroesi. Gallwn sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i ddarparu ar gyfer eu hanghenion hanfodol. Gall hyn fod mor syml â rheoli ymylon glaswelltrog mewn ffordd fwy sensitif, neu adael ardaloedd gwyllt o amgylch ein swyddfeydd, ein cartrefi a'n hadeiladau cyhoeddus, peidio â defnyddio glaswellt plastig, a hau hadau blodau gwyllt.</p> <p>Gall pob un ohonom helpu drwy wneud ein gerddi'n gyfeillgar i beillwyr trwy beidio â defnyddio plaladdwyr, peidio â thorri'r glaswellt mor aml, a thyfu planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr.</p>
3.13	Mesurau lliniaru posib. Lleihau mewnforion.	
3.15	Mesurau lliniaru posib. Prynu a thyfu'n fwy lleol.	
3.20	Mesurau lliniaru posib. Lleihau cynhyrchu cig, sy'n defnyddio llawer o ynni, tir a dŵr gyda da byw'n cynhyrchu nwy methan.	
3.30	Mesurau lliniaru posib. Uwchraddio hen dai sy'n llai effeithlon o ran ynni.	
3.35	Mesurau lliniaru posib. Defnyddio deunyddiau adeiladu naturiol sy'n fwy ecogyfeillgar ac sy'n effeithlon o ran ynni.	Defnyddio deunyddiau adeiladu sy'n llawn carbon (a fydd yn cloi carbon dros y tymor hir) gyda phren a chynhyrchion pren, deunydd inswleiddio gwlan, a'r defnydd o ffeibrau planhigion fel ffynhonnell ynni tanwydd.
3.42	Mesurau lliniaru posib. Defnyddio technoleg adeiladu fodern sy'n fwy effeithlon o ran ynni.	



Amser	Prif Thema	Gwybodaeth Sylfaenol
3.48	Mesurau lliniaru posib. Mae arwynebeddau arbennig yn lleihau llifogydd o'u cymharu â tharmac neu goncrit.	
3.50	Mae nwy moduron, er ei fod yn opsiwn glanach na phetrol/diesel, yn danwydd ffosil o hyd sy'n cyfrannu at allyriadau CO ₂ .	
3.53	Mesurau lliniaru posib. Ynni adnewyddadwy.	Mae Rhaglen Cyflenwi Ynni Cyfoeth Naturiol Cymru wedi integreiddio datblygiad ffermydd gwynt o fewn y gwaith o reoli Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy. Mae'r Rhaglen Cyflenwi Ynni yn gweithio i gyflenwi oddeutu 75% o darged ynni gwynt ar y tir Llywodraeth Cymru.
3.59	Cynlluniau graddfa fach lleol, gan gynnwys trydan dŵr.	Mae Rhaglen Cyflenwi Ynni Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi datblygiad trydan dŵr ar raddfa fach ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Gall cynlluniau graddfa fach rhwng 10 cilowat (kW) ac 1 megawat (MW) gael eu hintegreiddio o fewn coedwigoedd gweithredol os caiff gofal ei gymryd i reoli'r effaith ar yr amgylchedd a gweithgareddau coedwigaeth eraill, megis mynediad, hamdden a seilwaith.
4.06	Lliniaru posib. Gwrthod, lleihau, aildddefnyddio, ailwampio, ailgylchu.	
4.27	Os yw ein hinsawdd yn newid, a allwn ni wneud gwahaniaeth?	

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000